Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 20 Tachwedd 2020** am 9.00am trwy fideo gynadledda.

**Presennol**
Mr Jim Barclay
Mr Paul Barlow
Ms Ebony Banks
Mrs Laura Gough
Yr Athro Maria Hinfelaar
Mr Colin Heron
Mrs Claire Homard
Mrs Celia Jenkins
Yr Athro Sandra Jowett
Mr Paul McGrady
Dr Jayne Mitchell
Mrs Judy Owen
Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)
Mr Askar Sheibani
Mr David Sprake
Mr David Subacchi
Ms Chloe Williams

**Swyddogion:**
Mrs Val Butterworth (*Clerc y Bwrdd)*
Mr David Elcock (*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Mr Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol*)
Dr Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)*
Mrs Lynda Powell (*Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-Ganghellor)*
Mr James Dawson *(Cyfarwyddwr Strategol Cynllunio a Gweinyddiaeth Myfyrwyr) Eitemau 20.43 a 20.44*

| | | |
|---|---|---|
| **20.22** | **Adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2020<br>(ii) Datganiad Polisi Tâl Blynyddol 2019/20<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad a CHYMERADWYO'R Datganiad Polisi Tâl Blynyddol 2019/20 i'w gyhoeddi. | |
| **20.23** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. | |
| **20.24** | **Datgan buddiannau** | |
| | Ni ddatganwyd unrhyw wrthdaro buddiannau gydag unrhyw eitem ar yr agenda. | |
| **20.25** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2020.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2020 yn gofnod gwir a chywir y cyfarfod. | |

| | | |
|---|---|---|
| **20.26** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.27** | **Adroddiad yr Is-Ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad gan yr Is-Ganghellor<br>(ii) Diweddariad ynghylch penderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur<br>(iii) Ymateb drafft i'r ymgynghoriad ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft<br>(iv) Adroddiad Diwrnod Strategaeth y Bwrdd/Bwrdd yr Is-Ganghellor a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2020<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**20.27.01 Diweddariad yr Is-Ganghellor**<br>Adroddodd yr Is-Ganghellor fod y prosiectau a gyflwynwyd ar gyfer y Gronfa Fuddsoddi ac Adfer Addysg Uwch wedi'u hystyried gan Gyngor Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar 19 Tachwedd a'r ddealltwriaeth oedd y byddai cadarnhad y cyllid yn cael ei dderbyn yn ystod yr wythnos yn dechrau 30 Tachwedd. Byddai angen ymrwymo'r cyllid erbyn 31 Gorffennaf 2021 gyda'r deilliannau i'w cyflawni dros gyfnod tair blynedd. Atgoffwyd yr aelodau am dri phrosiect arfaethedig y Brifysgol a'r cynnig cydweithredol.<br><br>Gofynnwyd i brifysgolion Cymru gymryd rhan yn y gyfundrefn profion asymptomatig i staff a myfyrwyr yn ystod wythnos gyntaf Rhagfyr, gyda chostau trefnu a chynnal y profion i'w hadfer gan Lywodraeth Cymru. Roedd materion cyfreithiol ac yswiriant cysylltiedig wedi'u datrys. Byddai Canolfan Catrin Finch yn cael ei defnyddio ar gyfer cynnal y profion. Pwrpas y profion oedd hwyluso myfyrwyr i ddychwelyd adref yn ddiogel ar gyfer y Nadolig, gan ganiatáu amser i hunanynysu lle bo angen. Fodd bynnag byddai addysgu'n parhau tan 18 Rhagfyr, ond gyda llawer ohono ar-lein.<br><br>**20.27.02 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft**<br>Tynnwyd sylw at y prif feysydd a oedd yn peri pryder yn y Bil drafft. Un pryder sylfaenol oedd pwerau Gweinidogion Cymru i ddiddymu Corfforaethau Addysg Uwch a dosbarthu eu hasedau; a'r pŵer i newid Offerynnau ac Erthyglau Addysg Uwch. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn fygythiad i awtonomiaeth Corfforaethau Addysg Uwch; ac yn eu targedu ar gyfer triniaeth hanfodol wahanol o'i gymharu gyda gweddill y sector prifysgolion. Yn ychwanegol byddai lefel ymyriad Llywodraeth Cymru a amlinellwyd yn y Bil yn torri ar draws y Comisiwn arfaethedig ei hun yn ogystal â phrifysgolion.<br><br>Roedd Prifysgolion Cymru'n paratoi ymateb ar ran y sector i'r ymgynghoriad ar y cyd gyda Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, ac nid oedd wedi'i lunio'n derfynol eto. Roedd ar ddeall y byddai CCAUC yn cyflwyno ymateb hefyd.<br><br>Yn gyffredinol roedd yr aelodau'n ystyried fod ymateb drafft y Brifysgol yn gytbwys a'r naws yn briodol, yn ddarostyngedig i gryfhau'r ymateb i gwestiwn 22 yn ymwneud â'r pwerau ddiddymu arfaethedig. Gofynnodd yr aelodau am gryfhau'r ymateb i gwestiwn 22 a'i ailadrodd mewn cyflwyniad neu lythyr esboniadol. Byddai'r Is-Ganghellor yn parhau i sicrhau fod rhanddeiliaid allanol perthnasol yn cael eu briffio'n llawn ynghylch pryderon y Brifysgol am y Bil drafft yn ei chyfarfodydd rhanddeiliaid. | |

| | | |
|---|---|---|
| | CYTUNWYD y dylai'r Is-Ganghellor siapio'r cyflwyniad terfynol wedi'i hysbysu gan unrhyw drafodaethau pellach yn y sector.<br><br>**20.27.02 Diwrnod Strategaeth 1 Hydref 2020**<br>Nodwyd nodiadau'r Diwrnod Strategaeth ac roedd y deilliannau wedi hysbysu adolygiad interim y Weledigaeth a'r Strategaeth 2025.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod diwrnod datblygu llywodraethu'r Llywodraethwyr/Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd wedi bod yn gyfle da i adlewyrchu ac y byddai'r themâu allweddol o'r diwrnod yn cael eu bwrw ymlaen maes o law.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI Adroddiad yr Is-Ganghellor.<br><br>NODI adroddiad Diwrnod Strategaeth y Bwrdd/Bwrdd yr Is-Ganghellor.<br><br>CYMERADWYO'R ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft yn ddarostyngedig i'r Is-Ganghellor gryfhau'r ymateb i gwestiwn 22, gyda dirprwyaeth i'w lunio'n derfynol ar sail rhagor o wybodaeth gan y sector. | |
| **20.28** | **Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr.<br>(ii) Cynllun Strategol Interim 2020/21 yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Llywydd ac Is-lywydd yr Undeb Myfyrwyr yr adroddiad ar y cyd a thynnu sylw at y gwaith a'r gweithgareddau a gynhaliwyd gan yr Undeb Myfyrwyr i groesawu myfyrwyr a'r rhai'n dychwelyd i'r campysau, llwyddiant yr is-etholiadau diweddar a recriwtio llwyddiannus cynrychiolwyr myfyrwyr. Roedd clybiau a chymdeithasau myfyrwyr wedi'u heffeithio gan y pandemig gyda lleihad yn y nifer o 35 i 12 ond roeddynt wedi dechrau adfer ac wedi cyrraedd 20 erbyn hyn. Roedd effaith negyddol ar weithgareddau chwaraeon hefyd ond roedd yr Undeb Myfyrwyr wedi ymgynghori gyda Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol Cymru a Chanolfan Chwaraeon Prifysgol Glyndŵr Wrecsam i ddatblygu hyfforddiant i sicrhau bodloni canllawiau Covid-19 cyfredol tra'n caniatáu i fyfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon myfyrwyr.<br><br>Bu gostyngiad yn nifer yr achosion canolfan cynghori. Roedd yr holl gysylltu gyda'r gwasanaeth cyngor yn cael ei recordio yn awr, p'un ai yw achos yn bwrw ymlaen ai peidio, a fyddai'n galluogi cael trosolwg mwy cynhwysfawr o'r mathau o ymholiadau sy'n cael eu derbyn. Roedd ymgyrch newydd 'Caredigrwydd yn allweddol' ar fin cael ei lansio.<br><br>Roedd adolygiad cynllun strategol yr Undeb Myfyrwyr wedi dechrau a thynnwyd sylw at y nodau a'r amcanion. Byddai'r cynllun yn cael ei lunio'n derfynol ar gyfer 2021 – 2025 yng ngwanwyn 2021.<br><br>Diolchwyd i'r Undeb Myfyrwyr am eu holl waith i oresgyn y rhwystrau a gyflwynwyd gan y pandemig ac am gefnogi'r myfyrwyr yn effeithiol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.29** | **Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol drafft** | |
| | **Derbyniwyd:** | |

(i) Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol drafft 2019/20 ar gyfer Grŵp y Brifysgol a'i is-gwmnïau
(ii) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio i'r Bwrdd 2019/20
(iii) Adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2019/20

**Adroddwyd:**
**â**
**20.29.01 Grŵp y Brifysgol**
Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol drafft yr oedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Pwyllgor Archwilio wedi craffu arnynt yn eu cyfarfodydd ar 5 a 6 Tachwedd. Ni fu unrhyw newidiadau i'r ddogfen ers i'r pwyllgorau gyfarfod. Roedd y ddau bwyllgor yn fodlon gyda'r wybodaeth ariannol ac yn ystyried fod yr adroddiad blynyddol yn gywir, cyflawn a chlir. Roedd y diwyg wedi'i addasu ers y blynyddoedd diweddar i ymdrin yn rhannol â'r weithred yn deillio o Adolygiad Llywodraethiant Prifysgolion yng Nghymru (Adolygiad Camm) yn ymwneud â fformat adroddiad blynyddol cyson ar gyfer yr holl brifysgolion yng Nghymru. Byddai'r templed adroddiad blynyddol newydd yn cael ei weithredu'n llawn ar gyfer 2020/21.

Roedd nodweddion allweddol y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys:

i. Cynnydd yng nghyfanswm lefelau incwm y Grŵp i £36,980k
ii. Gwarged gweithredol y Grŵp o £779k cyn treth;
iii. Cynnydd yn y balans arian parod - £5.9m ar ddiwedd y flwyddyn;
iv. Y lleihad yng ngwerth y Fantolen a achoswyd gan gynnydd yn y ddarpariaeth pensiwn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn cynyddu o £31.2m i £40.7m, ond gyda'r Fantolen gyffredinol yn parhau mewn sefyllfa rhesymol iach.

Roedd y canlyniad cadarnhaol er gwaethaf colli incwm llety myfyrwyr y trydydd tymor, colli incwm cynadleddau, digwyddiadau a chwaraeon, yr ad-daliad cyfalaf £1m i AIB a chynnydd costau'r cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Athrawon. Cynorthwywyd y canlyniad gan CCAUC yn caniatàu cadw'r cyllid ar gyfer credydau rhan amser heb eu cyflawni.

Roedd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a Glyndŵr Innovations Ltd wedi cofnodi colledion ond roedd y rhesymau'n ddealladwy ac yn ymwneud yn bennaf â'r sefyllfa coronafeirws sy'n parhau. Roedd y Brifysgol wedi darparu llythyrau cefnogaeth i gadarnhau eu bod yn parhau'n fusnesau gweithredol. Roedd Glyndŵr Services Ltd wedi gwneud elw a fyddai'n cael ei roi'n ôl i'r Brifysgol trwy rhodd cymorth.

Adroddwyd nad oedd yr Archwilwyr Allanol wedi cwblhau eu gwaith archwilio hyd yma. Roeddynt wedi gofyn am ddiweddariad i'r Adolygiad Gweithredol ac Ariannol i gryfhau'r naratif ynghylch rhagolygon 2020/21 a rheoli'r prif risgiau; ac roeddynt yn chwilio am ragor o dystiolaeth i gefnogi eu hasesiad busnes gweithredol.

Bu'r aelodau'n trafod mater busnes gweithredol gan nodi fod KPMG yn edrych ar hyn yn fanylach ar gyfer eu holl gleientiaid eleni. Roedd hyn oherwydd effaith niweidiol y sefyllfa coronafeirws ar adnoddau ariannol busnesau yn yr holl sectorau, er fod Glyndŵr yn dangos gwarged.

Dau faes pryder yr Archwilwyr oedd: (i) ailgyllido'r benthyciad AIB ym mis Awst 2021; a (ii) thystiolaeth fod y Cyllid Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddiwygiedig yn cael ei gyflwyno. Roedd yr Archwilwyr wedi cyfarfod gyda swyddogion CCAUC ar 18 Tachwedd a chadarnhaodd CCAUC y byddent yn ysgrifennu at Brifysgolion, i gadarnhau lefel y cyllid a ddyrannwyd, yn ystod yr wythnos 30 Tachwedd 2020.

O ran ailgyllido'r benthyciad roedd dau gynnig gyda Phenawdau Telerau wedi'u derbyn yn awr, fodd bynnag, roedd KMPG yn dymuno gweld cytundeb ailgyllido wedi'i lofnodi yn ei le. Byddai'r Brifysgol yn gweithio tuag at gael cytundeb

| | | |
|---|---|---|
| | benthyciad wedi'i lofnodi er y byddai angen dilyn y broses briodol a sicrhau gwerth gorau ar gyfer y Brifysgol.<br><br>Tynnwyd sylw at drafodaethau'r Pwyllgor Archwilio. Roedd yr aelodau wedi canmol a chadarnhau'r adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol fel adlewyrchiad cywir o berfformiad y Brifysgol yn 2019/20. Fodd bynnag, ni allai'r Pwyllgor argymell llofnodi gyda phryder sylfaenol os y gellid osgoi hynny a chynghorwyd fod y Tîm Cyllid yn gweithio gyda'r archwilwyr i ddarparu'r dystiolaeth sy'n ofynnol i sicrhau barn archwilio glân. Byddai'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu sefyllfa derfynol yr Archwilwyr maes o law ac yn gwneud argymhelliad i'r Bwrdd. Roedd yn debygol y byddai'n ofynnol cynnal cyfarfod arbennig byr y Bwrdd er mwyn cymeradwyo llofnodi'r adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol ynghyd â rhagfynegiadau llif arian diwygiedig ar gyfer y flwyddyn lawn o ddyddiad cyflwyno'r datganiadau i'w llofnodi.<br><br>Byddai'r estyniad i gyflwyno'r adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol terfynol i CCAUC i 28 Chwefror 2021 yn darparu amser i fodloni gofynion yr Archwilwyr a dod yn ôl i'r Bwrdd i'w gymeradwyo'n derfynol.<br><br>Roedd Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn cadarnhau'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol fel adlewyrchiad cywir o berfformiad a rheolaeth ariannol cryf y Brifysgol; a chofnodi eu diolch i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'r Tîm Cyllid.<br><br>**20.29.02 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2019/20**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio adroddiad y Pwyllgor a oedd yn tynnu sylw at farn yr Archwilwyr Allanol fel yr adroddwyd yn eu llythyr rheoli i'r Pwyllgor. Yn ychwanegol, roedd adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol yn cefnogi'r datganiadau yn y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol o ran digonoldeb y fframwaith a chyfrifoldebau'r Bwrdd ar gyfer rheoli risgiau, llywodraethu a rheolaeth fewnol a'r economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2019/20 yn cynnwys y datganiad llywodraethu corfforaethol a CHYTUNO i oedi cymeradwyo llofnodi'r ddogfen nes bo'r Archwilwyr Allanol wedi cwblhau eu gwaith archwilio neu gyrraedd y dyddiad cau cyflwyno'r ddogfen ar 28 Chwefror.<br><br>CYTUNO i drefnu cyfarfod arbennig y Bwrdd i lofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2019/20 cyn 28 Chwefror 2021.<br><br>CYTUNO y dylai'r Cadeirydd lofnodi llythyr sylwadau'r Bwrdd i'r Archwilwyr Allanol.<br><br>NODI'R adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio 2019/20.<br><br>NODI adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2019/20.<br><br>NODI'R adroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol ar gyfer is-gwmnïau'r Brifysgol. | |
| **20.30** | **Adroddiad Blynyddol Sicrwydd Cynaliadwyedd (ASSuR)** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad am y dystiolaeth sail i ganiatáu cwblhau'r Adroddiad Blynyddol Sicrwydd Cynaliadwyedd gan y Bwrdd.<br>(ii) Cyngor ynghylch yr ystyriaethau busnes gweithredol.<br>(iii) Diweddariad ar ailgyllido'r benthyciad AIB.<br><br>**Adroddwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Atgoffwyd yr aelodau am gefndir cwblhau'r ASSuR ac adolygwyd y datganiadau y mae'n ofynnol eu gwneud. Roedd yr EBITDA a'r MSI wedi cynyddu, a oedd yn welliant ar y blynyddoedd blaenorol ac yn unol ag amrediadau'r sector.<br><br>Byddai'r naratif ynghylch y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu terminoleg y prif Ddangosyddion Perfformiad Allweddol anariannol a ddefnyddir gan y Brifysgol i fonitro'r perfformiad yn erbyn y Weledigaeth a'r Strategaeth 2025.<br><br>Ar ôl adolygu'r adroddiad blynyddol cadarnhaol ynghylch y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r dystiolaeth a ddarparwyd roedd yr aelodau wedi cael sicrwydd fod strategaethau'r Brifysgol yn ystyried yr amgylchedd y mae'r Brifysgol yn gweithredu ynddi ac y dylai ei gweithgareddau craidd a gefnogir gan y pwrs cyhoeddus fod yn gynaliadwy am y dyfodol rhagweladwy, serch aros am gwblhau gwaith yr Archwilwyr Allanol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYTUNO fod y Brifysgol yn parhau'n gynaliadwy am y dyfodol rhagweladwy a CHYMERADWYO dirprwyo'r Cadeirydd i lofnodi'r datganiad ASSuR ar ran y Bwrdd i'w gyflwyno i CCAUC.<br><br>CYTUNO i gyflwyno'r ASSuR i CCAUC unwaith y bo'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Cyllid 2019/20 wedi'u cymeradwyo. | **VB** |
| **20.30** | **Adolygiad y Gyllideb 2020/21** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad adolygiad cyllideb 2020/21 a sefyllfa arfaethedig y gyllideb wedi'i diweddaru.<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**20.30.01 Cyllideb ddiwygiedig 2020/21**<br>Roedd pob maes yn y gyllideb wedi'u hadolygu gan ystyried y sefyllfa ddiweddaraf o ran y cofrestriadau myfyrwyr diweddaraf a gwell gwelededd o ran goblygiadau'r sefyllfa coronafeirws ar ffrydiau refeniw. Roedd lefel ddarbodus Cyllid Buddsoddi Addysg Uwch CCAUC wedi cael ei gynnwys. Yr effaith net oedd gwarged diwygiedig arfaethedig o £248k. Tynnwyd sylw at y prif bethau yr oedd yn ofynnol er mwyn cyflawni'r gwarged hwn.<br><br>Roedd lefel y gwarged arfaethedig wedi'i drafod yn fanwl gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a oedd yn nodi y gallai'r gwarged diwygiedig gael ei erydu os oes unrhyw wariant heb ei gynllunio neu nad yw'r elfennau dibyniaeth allweddol yn syrthio i'w lle, gan symud y Brifysgol i sefyllfa diffyg ariannol. Fodd bynnag, cytunwyd fod lefel y gwarged yn gywir ac roedd yn dangos fod y Brifysgol yn rheoli ei hadnoddau mewn ymateb i effaith negyddol y sefyllfa coronafeirws. Byddai angen i'r Brifysgol fanteisio ar gymorth gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu capasiti a sicrhau nad oes angen toriadau mawr i gynnal gweithrediadau.<br><br>Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ynghylch trafodaethau'r Pwyllgor, yn cynnwys rhyddhau araf y cronfeydd dan embargo a'r argymhelliad i fabwysiadu'r gyllideb ddiwygiedig. Byddai Adroddiad Rheolaeth Ariannol hyd at ddiwedd Tachwedd 2020 yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor, a'r Bwrdd llawn, er gwybodaeth ym mis Rhagfyr gan nodi fod y sefyllfa ariannol hyd at 31 Hydref mor fanwl yn yr adroddiad cyllideb arfaethedig.<br><br>**20.30.02 Rhagfynegiadau diwygiedig 2021/22 a 2022/23** | **DE** |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd CCAUC wedi gofyn am ragfynegiadau diwygiedig ar gyfer 2021/22 erbyn 11 Rhagfyr 2020. Byddai'r gyllideb 2020/21 ddiwygiedig a'r tybiaethau ynddi yn cael eu defnyddio fel y sylfaen ar gyfer y flwyddyn ganlynol.<br><br>Ni fyddai'r rhagfynegiad yn cynnwys incwm o werthu'r Chwarter Gogleddol na gwerthiannau asedau eraill, na goblygiadau ailgyllido benthyciad AIB, gan nad yw'r rhain yn effeithio ar y cyfrif incwm a gwariant, er y byddent yn cael effaith gadarnhaol ar y lefelau arian parod.<br><br>Bu'r aelodau'n trafod yr opsiynau ar gael iddyn nhw ar gyfer cymeradwyo'r rhagfynegiadau diwygiedig. CYTUNWYD y dylid cyflwyno'r rhagfynegiadau i CCAUC gan y rheolwyr gyda dirprwyaeth i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid eu cymeradwyo yn ei gyfarfod yn Chwefror 2021. Gellid galw cyfarfod arbennig y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid cyn Chwefror i gymeradwyo'r rhagfynegiadau os oedd y rheolwyr yn penderfynu fod hynny'n angenrheidiol yn dilyn y trafodaethau gyda CCAUC. Byddai'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn adrodd yn ôl i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2020/21.<br><br>CYTUNO dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid gymeradwyo'r rhagfynegiadau diwygiedig ar gyfer 2021/22, fel y'u cyflwynwyd i CCAUC, yn ei gyfarfod nesaf.<br><br>CYTUNO y gall 30% o'r cyllid dan embargo gael ei ryddhau i ddechrau, yn unol â disgresiwn Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor gydag adroddiad ar y cynnydd i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn ei gyfarfod nesaf. | |
| **20.31** | **Bargen Twf Gogledd Cymru** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Achos Busnes prosiect Prifysgol Glyndŵr Wrecsam<br>(ii) Cynllun Busnes Trosfwaol<br>(iii) Cytundeb Llywodraethu 2<br><br>**Adroddwyd:**<br>Atgoffwyd y Bwrdd am gefndir a chyd-destun Bargen Twf Gogledd Cymru a phrosiect y Brifysgol yn y Fargen Twf cyffredinol. Mae prosiect y Brifysgol yn rhan o'r rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel ac yn cynnwys datblygu labordy peirianneg newydd fel rhan o Gampws 2025 a buddsoddiad perthynol mewn offer technegol arbenigol iawn yng Nghanolfan OpTic. Byddai angen datblygu achosion busnes llawn yn awr i'w cyflwyno yn gynnar yn 2021. Roedd yr Is-Ganghellor wedi uwchlwytho cyflwyniad ar dudalen Teams y Bwrdd a oedd yn amlinellu'r weledigaeth, y strwythur llywodraethu, yr amserlen, y portfolio a'r cytundebau ariannol a'r fargen a dyddiadau allweddol Bargen Twf Gogledd Cymru i'r aelodau gyfeirio ato.<br><br>Dr Aulay Mackenzie sy'n arwain hyn ar ran y Brifysgol gyda chefnogaeth gan yr Athro Caroline Gray a'r Athro Richard Day.<br><br>Esboniwyd y rheswm am y bwlch enwol yng nghyllido'r prosiectau dros y pum mlynedd nesaf. Roedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cymeradwyo model cyfraniad partner blynyddol dros gyfnod 15 mlynedd i gwmpasu'r ffioedd llog fydd yn codi. Roedd y cyfraniad wedi'i raddio i faint y prosiect. Eglurwyd mai cyfraniad y Brifysgol fyddai £34k y flwyddyn os yw'r prosiect yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig erbyn diwedd Rhagfyr 2020. Gallai'r swm hwn gynyddu i £48,670 os nad yw'r prosiect yn cael ei | |

| | | |
|---|---|---|
| | gymeradwyo tan fis Mawrth 2021. Fodd bynnag, mae'r prosiect ar y trywydd iawn i'w gymeradwyo yn Rhagfyr 2020 fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R dogfennau.<br><br>CYMERADWYO'R ymrwymiad i'r cyfraniad partner blynyddol am 15 mlynedd sy'n galluogi'r Is-Ganghellor lofnodi Cytundeb Llywodraethu 2. | |
| **20.32** | **Adroddiad gan y Panel Craffu Safonau ac Ansawdd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Nodiadau ac adroddiad y Panel Craffu Safonau ac Ansawdd.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Cadeirydd Panel Craffu Safonau ac Ansawdd y Bwrdd yr adroddiad a thynnodd sylw fod y Tîm Ansawdd wedi ystyried awgrymiadau'r Panel o'r llynedd a bug well gwerthuso yn yr adroddiadau a gyflwynwyd. Ni does unrhyw broblemau, diffygion nag anghysondebau sylfaenol yn safonau ac ansawdd dyfarniadau'r Brifysgol ac roedd y Panel wedi cymryd rhan mewn trafodaeth drwyadl ynghylch y dystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi pob un o ddatganiadau sicrwydd CCAUC.<br><br>Cyfeiriwyd yr aelodau at adroddiadau'r Bwrdd Academaidd a oedd yn cynnwys nifer o ddogfennau a oedd angen eu hystyried wrth gyrraedd casgliad ynghylch yr ymateb i'r cwestiynau sicrwydd, ac a adolygwyd gan y Panel Craffu Safonau ac Ansawdd ym mis Hydref.<br><br>Gwnaeth Cadeirydd y Panel atgoffa'r aelodau am y datganiad sicrwydd ychwanegol a fyddai'n ofynnol cael ymateb iddo ym mis Rhagfyr 2021 h.y. *'fod gan y corff llywodraethu drosolwg effeithiol canlyniadau gradd ac uniondeb academaidd.'*<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO cadarnhau'r pump datganiad sicrwydd safonau ac ansawdd a llofnodi'r datganiadau gan Gadeirydd y Bwrdd i'w cyflwyno i CCAUC.<br><br>NODI'R adroddiadau a ddarparwyd gan y Bwrdd Academaidd fel rhan o'r sail tystiolaeth i gefnogi'r datganiadau sicrwydd. | |
| **20.33** | **Diweddariad Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Diweddariad Campws 2025<br>(ii) Adroddiad blynyddol ar berfformiad Ystadau<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**20.33.01 Diweddariad Campws 2025**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r adroddiad gan dynnu sylw at y tri phrosiect fyddai'n cael eu cyflawni'n defnyddio'r cronfeydd cyfalaf gan CCAUC. Roedd y rhain yn cynnwys: parhau'r gwaith ar goridor B; uwchraddio ac ad-drefnu Stryt y Rhaglaw; a newid y labordy Perfformiad Dynol yn weithle cydweithredol i'r staff. Byddai'r olaf yn cynnwys y Ganolfan Dysgu Gweithredol, Arloesi a'r Amgylchedd Rhithiol yn graidd iddo. Roedd y prosiectau'n bodloni holl feini prawf CCAUC ar gyfer defnyddio'r cyllid.<br><br>Roedd cyfweliadau ar gyfer Rheolwr Prosiect Cyfalaf wedi bod yn llwyddiannus gyda dau ymgeisydd y gellid eu penodi, ac roedd un wedi cael gwahoddiad i gael cyfweliad wyneb yn wyneb a thaith dywysedig o gwmpas y campws.<br><br>**20.33.02 Adroddiad blynyddol ar berfformiad Ystadau** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Croesawodd yr aelodau'r adroddiad ac yn benodol yr wybodaeth yn ymwneud â meincnodi perfformiad a rheoli asedau; a llongyfarchwyd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a'i thîm am gynhyrchu dogfen eglur a diddorol.<br><br>**20.33.02 Is-lesio Stadiwm y Cae Ras**<br>Yn dilyn adolygiad arall gan Gyfreithiwr y Brifysgol cadarnhawyd nad oedd yn ofynnol i'r Brifysgol roi caniatâd i Wrexham Assets Ltd is-lesio'r Stadiwm i'r darpar berchnogion newydd, gan y byddai'r is-les 'yn gyfan' ac felly ni fyddai'n newid ymrwymiadau Wrexham Assets Ltd i'r Brifysgol. Roedd y newyddion ynghylch y perchnogion newydd proffil uchel yn prynu'r Clwb Pel-droed wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol i Wrecsam a'r Brifysgol. Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid i gyfarfod y darpar berchnogion newydd yn fuan a byddent yn trafod sut y gallai'r Brifysgol ymgysylltu gyda nhw yn y dyfodol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI'R diweddariad Campws 2025<br><br>NODI'R adroddiad blynyddol ar berfformiad Ystadau<br><br>NODI y byddai Wrexham Assets Ltd yn is-lesio Stadiwm y Cae Ras 'yn gyfan' i berchnogion y Clwb Pel-droed. | |
| **20.34** | **Adolygiad interim y Weledigaeth a'r Strategaeth 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad ar y cynnydd hyd yma gyda'r adolygiad interim.<br><br>**Adroddwyd**<br>Gwnaeth yr Is-Ganghellor dynnu sylw at y rhesymau am adolygiad interim y Weledigaeth a Strategaeth. Byddai'r weledigaeth a'r gwerthoedd yn parhau heb eu newid, ond o gofio datblygiadau diweddar roedd yn briodol oedi ac adolygu'r cynnydd a wnaed eisoes ac ystyried p'un ai yw parthau'r strategaeth yn parhau'n gyfredol. Yn ychwanegol, deilliodd tri phwnc allweddol o Ddiwrnod Strategaeth y Bwrdd a fyddai'n cael ei ystyried fel rhan o ddiwygio'r Weledigaeth a'r Strategaeth sef (i) ailgydbwyso Campws 2025 a chryfhau'r seilwaith digidol, (ii) adolygu siâp y cwricwlwm i'r dyfodol a (iii) ymgysylltu gyda rhanddeiliaid. Gwnaeth trafodaethau yn y diwrnod datblygu Llywodraethwyr hefyd dynnu sylw y byddai fframwaith cynllunio gwahanol sefyllfaoedd yn ystyriaeth ddefnyddiol hefyd.<br><br>Roedd gweminar gan Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor wedi cyflwyno'r adolygiad interim i'r staff ar 17 Tachwedd a byddai rhagor o ymgynghori mewnol ac allanol, yn cynnwys gyda'r llywodraethwyr, yn cael ei gynnal gyda'r nod o gyflwyno'r drafft terfynol i'r Bwrdd ei ystyried a'i gymeradwyo ym mis Mawrth 2021.<br><br>Gofynnwyd i Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor fyfyrio ar y genhadaeth o ran a ddylid ehangu'r cyfeiriad at 'addysg uwch' i gynnwys 'ymchwil ac arloesi', oherwydd fod dirnadaeth yn dechrau lledu fod Addysg Uwch yn golygu 'addysgu'n unig'.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.35** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Adroddodd y Cadeirydd am ei hymwneud gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Canllawiau Addysg Uwch a oedd yn cynhyrchu canllawiau ynghylch Covid-19 ar gyfer Prifysgolion Cymru; a'i gwaith ar Grŵp Llywodraeth Cymru, yn cynrychioli | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cadeiryddion Prifysgolion Cymru; yn datblygu ymateb y sector i Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft.<br><br>Roedd hi hefyd wedi cynnal cyfarfod 1:1 gyda bron holl aelodau'r Bwrdd, gyda nifer fechan i'w cwblhau ym mis Tachwedd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.36** | **Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2020<br>(ii) Adroddiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2019/20<br>(iii) Adroddiad Blynyddol Trosolwg Safonau 2019/20<br>(iv) Adroddiad Trosolwg Dilysu 2019/20<br>(v) Adroddiad Trosolwg yr Arholwyr Allanol 2019/20<br>(vi) Adroddiad Blynyddol cwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd 2019/20<br>(vii) Adroddiad Blynyddol ar weithdrefnau ymddygiad myfyrwyr 2019/20<br>(viii) Cofrestr Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol ac adroddiad statws Hydref 2020<br>(ix) Strategaeth ar gyfer Cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr – metrics a diweddariad terfynol 2019/20<br>(x) Strategaeth ar gyfer Cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr 2020 -2025 a chynllun gweithredu 2020/21<br>(xi) Canlyniadau graddau 2019/20<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor yr adroddiad a thynnodd sylw at y dogfennau cefnogol y gofynnwyd i'r aelodau eu hystyried fel rhan o'r adroddiad gan y Panel Craffu Safonau ac Ansawdd. Roedd yr Adroddiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil yn cynnwys adroddiad na fu unrhyw achosion o hysbysiad am gamymddygiad ymchwil yn 2019/20 ac mae gan y Brifysgol fecanweithiau'n bodoli i gefnogi myfyrwyr ymchwil a staff.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2020.<br><br>CYMERADWYO'R Adroddiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2019/20 i'w gyhoeddi. | |
| **20.37** | **Risgiau Strategol Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Y Gofrestr Risgiau Strategol Corfforaethol.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio sylw at y ddau risg a oedd wedi cynyddu mewn ymateb i Covid-19 yn ymwneud ag ymgysylltu gyda myfyrwyr a chydymffurfio gyda'r canllawiau Covid-19 sy'n cael eu diweddaru'n aml. Cwblhawyd archwiliad mewnol ar y fframwaith rheoli risgiau a dyfarnwyd sicrwydd rhesymol. Roedd yr archwiliad wedi canolbwyntio ar reoli risgiau gweithredol ac o'r chwech argymhelliad roedd pump yn rhai blaenoriaeth isel ac un yn flaenoriaeth canolig. Roedd y broses o weithredu'r rhain wedi dechrau eisoes.<br><br>Nodwyd, yn dilyn Diwrnod Datblygu'r Bwrdd, byddai Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn adlewyrchu'n fanylach ar y gofrestr risgiau a sut y gellid gweithredu awch am risg y Brifysgol i ymgymryd â mentrau newydd a gwahanol.<br><br>**Penderfynwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | NODI'R adroddiad. | |
| **20.38** | **Cylchlythyrau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar gylchlythyrau perthnasol CCAUC ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.39** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **20.39.01 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2020.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2020.<br><br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 22 Hydref wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd. | |
| | **20.39.02 Y Pwyllgor Archwilio** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2020.<br>(ii) Adborth o ymweliad Sicrwydd Sefydliadol CCAUC ym mis Mawrth 2020<br>(iii) Cynnig i ailbenodi'r archwilwyr mewnol ac allanol yn dilyn adolygiad blynyddol eu perfformiad gan y Pwyllgor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd.<br><br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 6 Tachwedd wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adborth Adolygiad Sicrwydd Sefydliadol CCAUC.<br><br>CYMERADWYO ailbenodi KMPG fel archwilwyr allanol y Brifysgol a RSM fel archwilwyr mewnol y Brifysgol ar gyfer 2020/21. | |
| | **20.39.03 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2020.<br>(ii) Memorandwm Cytundeb rhwng y Brifysgol a Gwyddoniaeth Gogledd Cymru (North Wales Science Ltd.)<br><br>**Adroddwyd:**<br>Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor ar y diwygiadau y gofynnwyd amdanyn nhw i'r Memorandwm Cytundeb gyda North Wales Science Ltd gan y Pwyllgor a thynnodd sylw at adolygiad datganiadau ariannol archwiliedig yr Undeb Myfyrwyr yn cadarnhau fod yr undeb mewn sefyllfa ariannol dda. Llongyfarchodd y Bwrdd yr Undeb Myfyrwyr ar reolaeth gadarn ei adnoddau ariannol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2020.<br><br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 5 Tachwedd wedi'u dosbarthu ymlaen llawn cyn papurau'r Bwrdd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | CYMERADWYO'R Memorandwm Cytundeb rhwng y Brifysgol a North Wales Science Ltd. | |
| | **20.39.04 Is-gwmnïau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion:<br>(i) Cyfarfod Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a'r Cyfarfod Cyllid Cyffredinol ar 19 Hydref 2020<br>(ii) Cyfarfod Glyndwr Innovations Ltd a'r Cyfarfod Blynyddol ar 20 Hydref 2020<br>(iii) Cyfarfod Blynyddol Glyndwr Services Ltd ar 2 Tachwedd 2020<br><br>**Adroddwyd:**<br>Gwahoddwyd y llywodraethwyr annibynnol sy'n gyfarwyddwyr anweithredol yr is-gwmnïau i wneud sylwadau ar berfformiad y cwmnïau. Croesawyd fod y berthynas rhwng y Bwrdd Llywodraethwyr a Byrddau'r is-gwmnïau yn cryfhau.<br><br>Roedd Bwrdd Glyndŵr Innovations Ltd wedi trafod Bargen Twf Gogledd Cymru wnaeth greu cyfleoedd pwysig ar gyfer y ganolfan OpTic yn ogystal â'r Brifysgol, ac roedd proffil contractau'r dyfodol yr OpTic yn creu cyfleoedd sylweddol ar gyfer rhagor o dwf.<br><br>Roedd North Wales Science Ltd wedi datblygu'n arwyddocaol ac, er fod Covid-19 wedi cael effaith negyddol ar y cwmni eleni, roedd wedi creu cyfleuster addysgol nodweddiadol yng nghanol tref Wrecsam a fyddai'n cyfrannu at ddatblygiad economaidd Wrecsam.<br><br>Crewyd Glyndwr Services Ltd i ddod â nifer fechan o wasanaethau cymorth allanol yn fewnol ac roedd hyn wedi creu arbedion ariannol i'r Brifysgol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R cofnodion a'r adroddiadau. | |
| | **Unrhyw fater arall** | |
| **20.40** | Dan 'Unrhyw fater arall' gwnaeth y Bwrdd ganmol y rheolwyr am flwyddyn lwyddiannus ac am lywio'r Brifysgol trwy'r argyfwng Covid-19 gydag ystwythder ac arloesedd.<br><br>Cofnodwyd diolchiadau hefyd i'r holl staff am eu hymdrechion yn cefnogi myfyrwyr ac yn sicrhau cyfleoedd iddynt barhau gyda'u dysgu a'u hymgysylltu. | |

Diwedd